# Llamu Ymlaen – Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Blwyddyn archwilio: 2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 2931A2022

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam fel rhan o'r gwaith a gyflawnwyd/sydd i'w gyflawni yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, ac Adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn rhinwedd eu swyddogaethau unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os bydd cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ymdrin â cheisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Archwilio Cymru a, phan fo’n berthnasol, yr archwilydd sy'n gweithredu ar ran yr Archwilydd Cyffredinol yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru: swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English.

# Cynnwys

Mae’r Cyngor wrthi'n gweithio ar ei Brosiect Dulliau Modern o Weithio, sy'n effeithio ar ei asedau sy’n adeiladau a'i weithlu, gan integreiddio'r gweithgaredd hwn â strategaethau ehangach, a gan edrych ymhellach ymlaen bydd yn cryfhau ystyriaeth y Cyngor o'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac yn arwain at ganlyniadau gwell a mwy cyflawn.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Asedau 8

- Mae'r Cyngor yn parhau i weithredu ei Raglen Adolygu Llety Swyddfa a'i brosiect Dulliau Modern o Weithio, ond nid yw eto wedi ymgorffori'r rhaglenni hyn mewn cynllun rheoli asedau corfforaethol sy'n nodi dyfodol ei asedau sy’n adeiladau 8
- Mae swyddogion, wedi’u cefnogi gan gynghorwyr, yn rhagweithiol wrth reoli asedau ond mae cyfleoedd i wella prosesau a chysondeb ar draws y Cyngor 9
- Trwy gydol y pandemig bu uwch reolwyr ac Aelodau Gweithredol yn monitro effaith COVID-19 ar adnoddau'r Cyngor yn ofalus gan gynnwys asedau sy’n adeiladau gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf i’r staff 11

Gweithlu 12

- Mae gan y Cyngor drefniadau cynllunio gweithlu ar waith a bydd angen iddynt ddatblygu'r rhain ymhellach wrth lunio ei weledigaeth ar gyfer y dyfodol 12
- Mae'r Cyngor yn bwrw ymlaen â gweithredu ei brosiect Dulliau Modern o Weithio ac mae'n mynd i’r afael â'r effaith a gaiff y pandemig ar ei weithlu 13
- Mae'r Cyngor yn cynnal trosolwg cryf o'i weithlu ond nid yw eto wedi asesu effaith COVID-19 yn llawn ar ei gynlluniau gwasanaeth yn y dyfodol 15

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn a adolygwyd gennym a pham

1 Wrth i'r byd symud ymlaen, gan ddysgu o'r pandemig byd-eang, mae'r adolygiad hwn wedi edrych ar sut mae'r Cyngor yn cryfhau ei allu i drawsnewid, addasu a chynnal y gwaith o ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys y rhai a ddarperir mewn partneriaeth â rhanddeiliaid a chymunedau allweddol.

2 Gwnaethom adolygu trefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli ei asedau a'i weithlu:

a. ar gyfer asedau, roedd ein prif ganolbwynt ar llety swyddfeydd ac adeiladau y mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau i'w drigolion ohonynt;

b. ar gyfer y gweithlu, rydym wedi canolbwyntio ar yr heriau a amlygwyd yn ystod y pandemig sydd wedi gwaethygu rhai materion gweithlu hirsefydlog.

Edrychom ar sut mae'r Cyngor yn bwriadu defnyddio ei asedau a'i weithlu yn strategol, sut mae'n monitro eu defnydd a sut mae'n adolygu ac yn gwerthuso effeithiolrwydd ei drefniadau.

3 Pan ddechreuom ein gwaith archwilio o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, roeddem yn cydnabod y byddai'n cymryd amser i gyrff cyhoeddus ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ond nodwyd hefyd ein disgwyliad y byddem, dros y tymor canolig, yn disgwyl i gyrff cyhoeddus allu dangos sut mae'r Ddeddf yn llywio'r hyn a wnânt. Mae bellach yn agosáu at saith mlynedd ers pasio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac rydym bellach yn ail gyfnod adrodd y Ddeddf. Felly, byddem yn awr yn disgwyl i gyrff cyhoeddus allu dangos bod y Ddeddf yn rhan annatod o'u ffordd o feddwl ac yn wirioneddol lywio yr hyn a wnânt.

4 Roedd tri phrif nod i'r prosiect hwn:

- cael sicrwydd bod y Cyngor yn rhoi trefniadau ar waith i drawsnewid, addasu a chynnal y modd y darperir gwasanaethau;
- esbonio'r camau y mae'r Cyngor yn eu cymryd yn unigol ac mewn partneriaeth i gryfhau ei drefniadau yn ogystal â gwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy ymhellach;
- ysbrydoli'r Cyngor a sefydliadau eraill i gryfhau eu trefniadau ymhellach drwy gasglu a rhannu enghreifftiau o arferion nodedig a dysgu a gwneud argymhellion priodol.

5 Mae hyn yn bwysig gan fod Cyngor Wrecsam yn buddsoddi symiau sylweddol yn ei asedau sy'n adeiladau a'i weithlu. Dangosir rhywfaint o wybodaeth allweddol o 2020-21 yn **Arddangosyn 1**.

**Arddangosyn 1: ffeithiau a ffigurau allweddol sy'n ymwneud ag asedau sy’n adeiladau a'r gweithlu.**

| | |
|---|---|
| Nifer yr adeiladau sy’n eiddo i'r Cyngor yn 2020-21 | 11,400 o adeiladau y mae 11,055 ohonynt yn stoc tai yn 2020-21 |
| Gwerth yr eiddo, ar 31 Mawrth 2021 | Tua £452 miliwn |
| Nifer y staff | 4,477 |
| Gwario ar y gweithlu | £181 miliwn sy'n cyfateb i 45% o gyfanswm cost gwasanaethau |
| Canran y gweithlu, o'r staff a oedd yn ddynion | 29.1% |
| Canran y gweithlu, o'r staff a oedd yn fenywod | 70.9% |
| Canran y staff sy'n gweithio'n llawn amser | 51.9% |
| Canran y staff sy'n gweithio'n rhan-amser | 48.1% |
| Canran y staff dros 55 oed | 24.9% |
| Nifer y staff a adawodd y Cyngor yn ôl eu dewis eu hunain 2020-21 | 331 |

6 Mae pandemig COVID-19 wedi effeithio ar y galw am adeiladau a'r ffordd y mae staff yn gweithio. Mae'r adroddiad hwn yn archwilio rhai o'r effeithiau hyn a'r ffordd y mae'r Cyngor yn elwa o'r pethau cadarnhaol ac yn lliniaru risgiau o'r pethau negyddol wrth gynllunio ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol.

7 Cynhaliwyd yr adolygiad gennym yn ystod y cyfnod rhwng mis Rhagfyr 2021 a mis Chwefror 2022.

## Yr hyn a ganfuwyd gennym

8 Ceisiodd ein hadolygiad ateb y cwestiwn: A yw dull strategol y Cyngor yn cryfhau ei allu i drawsnewid? Wrth wneud y gwaith hwn rydym wedi nodi rhywfaint o effaith uniongyrchol y pandemig yn ogystal â rhai materion gweithredol a llywodraethu a waethygwyd gan y pandemig.

9 Yn gyffredinol, canfuom fod y Cyngor wrthi'n gweithio ar ei Brosiect Dulliau Modern o Weithio, sy'n effeithio ar ei asedau sy’n adeiladau a'i weithlu, gan integreiddio'r gweithgaredd hwn â strategaethau ehangach, a gan edrych ymhellach ymlaen bydd yn cryfhau ystyriaeth y Cyngor o'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac yn arwain at ganlyniadau gwell a mwy cyflawn.

10 Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- mae'r Cyngor yn parhau i weithredu ei Raglen Adolygu Llety Swyddfa a'i brosiect Dulliau Modern o Weithio, ond nid yw eto wedi ymgorffori'r rhaglenni hyn mewn cynllun rheoli asedau corfforaethol sy'n nodi dyfodol ei asedau sy’n adeiladau;
- mae swyddogion, a gynorthwyir gan gynghorwyr, yn rhagweithiol wrth reoli asedau er bod cyfleoedd i wella prosesau a chysondeb ar draws y Cyngor;
- drwy gydol y pandemig, bu uwch reolwyr ac aelodau Gweithredol yn monitro effaith COVID19 ar adnoddau'r Cyngor yn ofalus gan gynnwys asedau sy’n adeiladau a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff;
- mae gan y Cyngor drefniadau cynllunio'r gweithlu ar waith a bydd angen iddynt ddatblygu'r rhain ymhellach wrth lunio ei weledigaeth ar gyfer y dyfodol;
- mae'r Cyngor yn bwrw ymlaen â gweithredu ei brosiect Dulliau Modern o Weithio ac mae'n mynd i’r afael â'r effaith y mae'r pandemig yn ei chael ar ei weithlu; ac
- mae'r Cyngor yn cynnal trosolwg cryf o'i weithlu ond nid yw eto wedi asesu effaith COVID-19 yn llawn ar ei gynlluniau gwasanaeth yn y dyfodol.

## Argymhellion

**Arddangosyn 2: argymhellion**

Mae'r tabl isod yn nodi'r argymhellion a nodwyd gennym yn dilyn yr adolygiad hwn.

| Argymhellion |
| --- |
| **Dysgu ar ôl y pandemig**<br>A1 Ystyried yr hyn a ddysgwyd a meysydd i'w gwella o'r pandemig i helpu i lywio'r defnydd o asedau a'r gweithlu yn y dyfodol, pan fo'r pandemig wedi tynnu sylw at gyfleoedd o'r fath. Dangosir y rhain mewn testun trwm drwy'r adroddiad. |
| **Gweledigaeth**<br>A2 Egluro gweledigaeth y Cyngor ar gyfer siâp a maint ei asedau sy'n adeiladau a'i weithlu yn y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor. |
| **Strategaethau a chynlluniau cyflawni**<br>A3 Datblygu strategaethau asedau a gweithlu a chynlluniau cyflawni sy'n datblygu yr hyn a ddysgwyd o brofiad y Cyngor o bandemig COVID-19 a chyflawni gweledigaeth y Cyngor yn y meysydd hyn. |
| **Strategaethau a chynlluniau cyflawni**<br>A4 Nodi costau cyflawni'r cynlluniau hyn a'u hymgorffori yn y cynllun ariannol tymor canolig. |

# Adroddiad manwl

## Asedau

### Mae'r Cyngor yn parhau i weithredu ei Raglen Adolygu Llety Swyddfa a'i brosiectau Dulliau Modern o Weithio, ond nid yw eto wedi ymgorffori'r rhaglenni hyn mewn cynllun rheoli asedau corfforaethol sy'n nodi dyfodol ei asedau sy'n adeiladau

11 Wrth ddod i'r casgliad hwn, canfuom:

- fod prosiect Dulliau Modern o Weithio y Cyngor yn nodi ei ddyheadau ar gyfer cyngor modern. Mae'n disgwyl i staff weithio'n hyblyg, gweithio lle bynnag sydd fwyaf addas a gwneud y defnydd gorau o dechnoleg i weithio'n effeithlon. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd angen i gynlluniau swyddfeydd newid, ac mae ei Raglen Llety Swyddfa yn nodi ei flaenoriaethau ar gyfer gwaith i gefnogi'r newid hwn. Mae'r gofyniad i staff weithio gartref yn ystod y pandemig wedi golygu bod rhai swyddfeydd wedi bod yn wag ar y cyfan, gan sicrhau eu bod ar gael i'w hadnewyddu heb amharu ar staff.
- mae ymrwymiad i foderneiddio dulliau o weithio wedi'i gynnwys yng Nghynllun Cyngor Wrecsam 2019-22 lle mae'n nodi ei fod yn parhau i foderneiddio'r gwasanaethau y mae'n eu darparu drwy fuddsoddi mewn gweithlu ystwyth sy'n gofyn am lai o adeiladau swyddfa ond sy'n cael ei gynorthwyo gan seilwaith TG gwell a gwasanaethau cymorth o ansawdd da.
- roedd Strategaeth Rheoli Asedau'r Cyngor hefyd yn amlwg - Ebrill 2014 – Rhagfyr 2020, y Strategaeth Tir ac Adeiladau Corfforaethol 2015-2020 a Chynllun Rheoli Asedau Strategol 2014-2019. Mae'r holl ddogfennau hyn bellach wedi dod i ben ac nid ydynt wedi'u disodli gan fersiynau newydd eto. Ar hyn o bryd, nid yw cynlluniau yn rhai hirdymor eu natur ac nid ydynt wedi'u hintegreiddio'n dda yn unol â'r disgwyliadau a nodir yn y pum ffordd o weithio o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- mae'r pandemig diweddar wedi newid yn sylweddol dirwedd bosibl asedau sy'n adeiladau y Cyngor yn y dyfodol. **Yn ogystal ag ystyried ei raglen adnewyddu swyddfeydd, bydd angen ystyried economi canol y dref leol os bydd yn cau ei swyddfeydd, effaith technoleg ar y ffordd y mae Cynghorwyr a swyddogion yn gweithio, yr achos dros fod yn berchen ar adeiladau yn erbyn rhentu a maint yr ystâd bresennol mewn perthynas â'r galw disgwyliedig. Wrth i fwy o staff weithio gartref bydd angen adolygu polisïau a gweithdrefnau gan gynnwys teithio a threuliau ac ystyried iechyd a diogelwch staff er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau o ran eu lles**.

## Mae swyddogion, gyda chymorth cynghorwyr, yn rhagweithiol wrth reoli asedau er bod cyfleoedd i wella prosesau a chysondeb ar draws y Cyngor

12 Wrth ddod i'r casgliad hwn, canfuom:

- yng nghamau cynnar y pandemig, bod staff wedi addasu i gyfyngiadau COVID-19 Llywodraeth Cymru ac roedd amheuon dealladwy ynghylch cael cyswllt agos ag eraill. Cafodd hwn effaith ar waith cynnal a chadw a rheoli asedau sy’n adeiladau o ddydd i ddydd gan achosi oedi wrth i beth waith atgyweirio gael ei ohirio, ac mae wedi cymryd amser i'r Cyngor ddal i fyny.
- mae prisiau deunydd adeiladu wedi cynyddu'n sylweddol a gafodd effaith ar gontractau a chontractwyr. **Bydd angen i'r Cyngor ystyried y pwysau hyn wrth bennu ei gyllideb ei hun a sicrhau bod contractau yn y dyfodol yn rhoi gwerth am arian ac yn cefnogi ei flaenoriaethau o amgylch yr economi leol**.
- roedd system TG y Gwasanaeth Cynllunio yn ei gwneud yn ofynnol i swyddogion gweinyddol/cymorth busnes weithio o'r swyddfa a arweiniodd at rywfaint o oedi wrth gael gafael ar wybodaeth. Yn ogystal â hyn, nid oedd y gwasanaeth yn defnyddio technoleg rithwir yn effeithiol i gynnal ymgynghoriadau cynllunio. **Wrth i'r Cyngor weithredu ei brosiect Dulliau Modern o Weithio, bydd angen adolygu hygyrchedd gwybodaeth er mwyn sicrhau bod llai o darfu ar wasanaethau os bydd cyfyngiadau tebyg gan Lywodraeth Cymru naill ai'n gysylltiedig ag achosion pellach o COVID neu ddigwyddiadau mawr eraill**.
- dywedwyd wrthym am rai gwasanaethau yn defnyddio technoleg mewn ymateb i'r pandemig a fydd yn newid arferion gwaith yn y dyfodol. Er enghraifft, defnyddiodd y Gwasanaeth Atgyweirio 'gymorth fideo' o bell ar waith adnewyddu. Mae'r system yn galluogi i'r Cyngor anfon neges destun at denant, sydd ar ôl ei weithredu gan y tenant, yn agor y camera ar ei ffôn clyfar yn awtomatig. Yna gall y gweithredwr weld beth mae'r tenant yn ei ddangos iddynt ar sgrin y cyfrifiadur. Mae hyn yn caniatáu i staff naill ai gynghori'r tenant ar sut i atgyweirio mân ddiffygion eu hunain, blaenoriaethu atgyweiriadau'n gywir neu lunio rhestrau deunydd cywir fel y gellir cwblhau'r gwaith atgyweirio ar yr ymweliad cyntaf. Fel rhan o'i brosiect Dulliau Modern o Weithio, **bydd angen i'r Cyngor ystyried sut y gall datblygiadau technolegol fel yr enghraifft dda hon gynorthwyo gweithio o bell ymhellach a gwella effeithlonrwydd a darparu gwasanaethau**.
- cydweithiodd rheolwyr a staff yn dda drwy'r pandemig. Gwnaeth rhai partneriaid rannu asedau sy’n adeiladau a manteisiodd y Cyngor ar y ffaith bod swyddfeydd yn wag i raddau helaeth i ddatblygu ei raglen adnewyddu swyddfeydd; er enghraifft, yn Adeiladau'r Goron i letya staff y Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol ac Addysg a chreu 'Ardal Iechyd a Lles Cymunedol' gydag ystafell synhwyraidd ac ystafelloedd ar gyfer cydweithwyr Iechyd. Gwnaeth y Cyngor, gan weithio gyda phartneriaid Iechyd, sefydlu canolfan

brofi COVID mewn Neuadd Goffa a chanolfannau brechu ar draws y Fwrdeistref Sirol. Mae swyddogion hefyd yn gweithio gyda chydweithwyr yng Nghyngor Sir y Fflint i ddatblygu hostel Enfys yn ardal Sir y Fflint. Roedd rhai o'r staff a gyfwelwyd gennym yn teimlo bod y pandemig wedi hybu agwedd 'gallwn wneud hyn' yr oedd rhai yn ei weld fel 'lleihau biwrocratiaeth'. Er bod yr hyn y mae rhai yn ei ystyried yn fiwrocratiaeth yn rheolaeth fewnol hanfodol, **bydd angen i'r Cyngor ddysgu o ba mor gyflym y gwnaed penderfyniadau yn ystod y pandemig i nodi cyfleoedd i symleiddio'r broses o wneud penderfyniadau yn y dyfodol**.

- mae'r Tîm Asedau yn rheoli caffael, gwaredu a chynnal a chadw asedau sy'n adeiladau. Mae'r tîm hwn yn cysylltu â rheolwyr gweithredol ac yn eu cefnogi, gan ddod â sgiliau a gwybodaeth arbenigol i reoli adeiladau. Siaradodd swyddogion ac aelodau'n gadarnhaol am y cymorth a gânt gan y Tîm Asedau, er iddynt ddweud y byddai gwell cynllunio o ran caffael a gwaredu yn helpu i wella effeithlonrwydd cefnogaeth y Tîm. Mae'r Cyngor yn gweithredu trefniant 'Landlord Corfforaethol' lle mae adeiladau'n eiddo i'r Cyngor cyfan, nid gwasanaethau unigol, er mai gwasanaethau sy'n talu costau rhedeg. Mae'r pandemig wedi cynyddu pwysigrwydd asedau sy'n adeiladau wrth ddarparu gwasanaethau ac mae'r Cyngor yn amlwg wedi ymrwymo i adolygu'r ffordd y mae'n defnyddio'r adnoddau hyn yn y dyfodol. **Mae'n bwysig bod y Cyngor hefyd yn adolygu ei seilwaith sy'n cefnogi'r defnydd o'r adnoddau hyn er mwyn sicrhau'r effeithlonrwydd a'r gwerth mwyaf posibl o asedau sy'n adeiladau**.
- ar lefel swyddogion, nid yw asedau sy'n adeiladau yn cael eu cydgysylltu drwy grŵp rheoli asedau a arweinir gan swyddogion fel y maent mewn llawer o gynghorau. Caiff Grŵp Strategaeth Tir ac Adeiladau Corfforaethol y Cyngor ei gadeirio gan Arweinydd y Cyngor fel deiliad portffolio ar gyfer asedau ac mae'n gweithredu fel seinfwrdd ar gyfer caffael a gwaredu asedau sy'n adeiladau. Mae swyddogion yn mynychu'r cyfarfodydd i gyflwyno eu cynigion. Nid yw'r grŵp hwn yn grŵp penderfynu nac yn bwyllgor craffu. Er nad yw'r grŵp hwn wedi'i gyfansoddi'n ffurfiol, mae tîm gwasanaethau'r Pwyllgor yn gwahodd eitemau ar yr agenda, ac mae'n cofnodi cyfarfodydd. Nid yw cofnodion ar gael i'r cyhoedd, ond mae cofnodion o benderfyniadau i gaffael neu waredu tir ac adeiladau sy'n cael eu hystyried gan Weithrediaeth y Cyngor ar gael ar wefan y Cyngor. **Wrth i'r Cyngor adolygu'r seilwaith sy'n cefnogi rheoli asedau, dylai hefyd fanteisio ar y cyfle i adolygu'r trefniadau llywodraethu er mwyn sicrhau tryloywder wrth wneud penderfyniadau a gwahanu swyddogaethau rhwng aelodau etholedig a swyddogion**.

## Trwy gydol y pandemig bu uwch reolwyr ac Aelodau Gweithredol yn monitro effaith COVID-19 ar adnoddau'r Cyngor yn ofalus gan gynnwys asedau sy'n adeiladau gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff

13 Wrth ddod i'r casgliad hwn, canfuom:

- drwy gydol y pandemig, fod uwch reolwyr wedi derbyn adroddiadau rheolaidd yn tynnu sylw at effaith COVID-19 ar wasanaethau ac adnoddau. Derbyniodd yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth ddiweddariadau llafar ac adroddiadau ar y gwasanaeth cynllunio, ôl-groniad atgyweiriadau, diweddariadau ar gaffaeliadau dadleuol, cost gynyddol deunyddiau a thendrau ac oedi wrth waredu yn ystod y pandemig. Effeithiwyd ar drefniadau llywodraethu gan y pandemig, yn enwedig yn y camau cynharach, ond adferwyd y rhain drwy ddefnyddio technoleg o bell i hwyluso cyfarfodydd rhithwir. **Fel rhan o'i drefniadau cynllunio wrth gefn/cynllunio at argyfwng, bydd angen i'r Cyngor ystyried yr effaith a gafodd y pandemig ar ei drefniadau llywodraethu ac adolygu a gafodd uwch reolwyr a chynghorwyr wybodaeth briodol yn ystod y cyfnod hwn**.
- cafodd aelodau gweithredol eu briffio fel mater o drefn gan uwch reolwyr, er na dderbyniodd y Bwrdd Gweithredol adroddiadau yn nodi effaith COVID-19 gan gynnwys ar asedau sy'n adeiladau'r Cyngor, er iddo dderbyn adroddiad ym mis Rhagfyr 2021 ar gynnydd y Rhaglen Llety Swyddfa. Er bod y sesiynau briffio hyn yn hanfodol ar gyfer darparu gwasanaethau a lles preswylwyr, **dylai'r Cyngor ystyried cyfleoedd i rannu gwybodaeth nad yw'n gyfrinachol yn ehangach drwy ei brosesau cyfathrebu**.
- mae swyddogion wedi parhau i gwrdd â'u cydweithwyr a'u cyfoedion o sefydliadau eraill i rannu profiadau o'r pandemig a dysgu am ddulliau ei gilydd. Mae'r Prif Weithredwr wedi cynnal sesiynau briffio staff rhithwir gyda staff drwy gydol y pandemig ac mae'r rhain wedi cynnwys cyfeiriad at y dyfodol o swyddfeydd ac arferion gwaith. Mae rheolwyr hefyd wedi cyfarfod â'r staff i drafod patrymau gwaith yn y dyfodol a'r defnydd o'r swyddfa sydd orau ganddynt. Ac, fel rhan o'r gwaith o adnewyddu Adeiladau'r Goron, mae rhai aelodau o staff wedi bod yn rhan o'r broses o ddewis dodrefn a dyluniad y swyddfa.
- yn ystod y pandemig mae wedi bod yn anodd cynnal lefel cyfranogiad y staff a'r cynghorwyr a fyddai wedi cael eu gweld mewn cyfnodau mwy arferol. Mae'r Cyngor wedi gweithio'n galed i gyfathrebu'n bennaf yn y cyfnod anodd iawn hwn. **Wrth iddo ddatblygu ei brosiect Dulliau Modern o Weithio, dylai'r Cyngor adolygu'r profiadau cadarnhaol a llai cadarnhaol i ystyried a allai, pe bai digwyddiad mawr arall, fod yn fwy parod i ymgysylltu, cynnwys a chyfathrebu'n well â staff a chynghorwyr**.

# Gweithlu

## Mae gan y Cyngor drefniadau cynllunio gweithlu ar waith a bydd angen iddynt ddatblygu'r rhain ymhellach wrth lunio ei weledigaeth ar gyfer y dyfodol

14 Wrth ddod i'r casgliad hwn, canfuom:

- fod gan y Cyngor hanes o gynllunio gweithlu. Roedd ei Gynllun Gweithlu – 2020-2021 yn nodi'r problemau gweithlu a wynebodd y Cyngor y llynedd a'r camau yr oedd angen eu cymryd. Fe'i cefnogwyd gan Strategaeth Datblygu'r Sefydliad a'r Gweithlu 2017-2022 ac Adroddiad Gwybodaeth Rheoli'r Gweithlu 2019-2020. Mae hyn yn dangos ymrwymiad i gynllunio gweithlu ac er nad yw'r cynllun gweithlu presennol wedi'i ddatblygu ar gyfer 2022-23, mae oedi yn ddealladwy o ystyried y pandemig.
- mae partneriaid busnes Adnoddau Dynol y Cyngor yn gweithio gyda rheolwyr ar hyn o bryd i asesu anghenion eu gweithlu, gan ymgorffori'r rhain mewn cynllun gweithlu sy'n integreiddio â'r cynlluniau gwasanaeth. **Bydd angen i gynlluniau'r gweithlu hefyd integreiddio'n ehangach â chynlluniau eraill gan gynnwys y Prosiect Dulliau Modern o Weithio a'r Rhaglen Llety Swyddfa**.
- mae Cofrestr Risg y Cyngor yn cofnodi risgiau o amgylch y gweithlu. Mae'r rhain yn cynnwys peryglon nad oes gan y Cyngor y wybodaeth, y sgiliau, y gallu, y diwylliant a'r gallu i foderneiddio er mwyn parhau i gyflawni ei flaenoriaethau a'i gyfrifoldebau, y risg nad yw gwasanaethau'n gallu ymateb yn ddigonol i fentrau gwasanaeth neu newidiadau i wasanaethau a gofynion cyfreithiol, a'r risg o ddatblygu'r gweithlu'n annigonol ar draws y Cyngor . Mae'r gofrestr risg yn cynnwys camau lliniaru, a **bydd angen i'r Cyngor ystyried goblygiadau'r rhain wrth ddatblygu ei gynllun gweithlu newydd**.
- Mae Cyngor Wrecsam wedi gweld llawer o'i uwch reolwyr yn gadael dros y blynyddoedd diwethaf ac mae gan yr uwch dîm arwain presennol y potensial i elwa o lawer o benodiadau allanol profiadol. Gyda'r etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022, dylai'r weinyddiaeth, ynghyd â'r uwch dîm arwain newydd ond profiadol, fod mewn sefyllfa dda i nodi gweledigaeth y Cyngor ar gyfer gweithlu'r dyfodol gan gynnwys ei gynlluniau ar gyfer ethos 'Un Cyngor' i gael gwared ar weithio seilo.
- mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynllunio ar gyfer y tymor byr, canolig a hir. Fel y nodir uchod, mae'r Cyngor yn cynllunio'n flynyddol. Er bod y prosiect Dulliau Modern o Weithio yn arwydd o ffordd wahanol o weithio, mae'n newid siâp y gweithlu yn sylfaenol. **Bydd angen i'r Cyngor ystyried pa mor bell i'r dyfodol y mae'n rhesymol nodi ei gynlluniau ar gyfer y gweithlu**

**a pha sgiliau, gwybodaeth a chapasiti staff y bydd eu hangen dros y cyfnod hwnnw**.

## Mae'r Cyngor yn bwrw ymlaen â gweithredu ei brosiect Dulliau Modern o Weithio ac mae'n mynd i’r afael â'r effaith a gaiff y pandemig ar ei weithlu

15 Wrth ddod i'r casgliad hwn, canfuom:

- fod y Tîm Adnoddau Dynol (AD) wedi gweithio'n galed i gynorthwyo staff a mynd i'r afael ag effaith y pandemig. Mae partneriaid busnes wedi gweithio'n agos gyda rheolwyr gweithredol sy'n darparu cymorth Adnoddau Dynol .
- mae'r gwaith o gyflawni'r prosiect Dulliau Modern o Weithio wedi datblygu drwy gydol y pandemig. Mae'r Cyngor wedi recriwtio hyrwyddwyr Dulliau Modern o Weithio, wedi cynhyrchu canllawiau Dulliau Modern o Weithio, ac wedi cytuno ar gynllun gweithredu i gefnogi'r gwaith o gyflawni.
- yng nghamau cynnar y pandemig, roedd llawer o staff yn addasu i weithio gartref, nid oedd rhai yn gallu gweithio oherwydd bod y gwasanaethau a ddarparwyd ganddynt wedi'u hatal a cafodd rhai staff eu hadleoli i ddyletswyddau eraill. Roedd hyn yn gyfres ddigynsail o amgylchiadau a oedd, ynghyd ag ymrwymiadau personol a theuluol, yn rhoi llawer o’r gweithlu o dan bwysau sylweddol. Mae'r rhan fwyaf o staff bellach wedi dychwelyd i'w dyletswyddau arferol, er eu bod yn dal i weithredu o dan yr heriau a achosir gan y pandemig, er enghraifft ynysu a phryderon parhaus am COVID-19.
- yn unol â deddfwriaeth, bu'n ofynnol i staff weithio gartref pan fo hynny'n bosibl. Mae hyn wedi ei gwneud yn ofynnol i staff weithio'n wahanol iawn ac mae wedi achosi straen ychwanegol, yn enwedig i staff â chyfrifoldebau gofalu a phwysau ychwanegol tiwtora yn y cartref. Roedd y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i reolwyr ganiatáu i staff weithio'n hyblyg a chydnabod na fydd staff yn gallu 'gweithio eu sifft lawn' ar rai dyddiau. Er bod y ffordd newydd hon o weithio wedi bod yn llwyddiannus i lawer, ac mae'n debygol y bydd llawer o staff yn treulio amser yn y dyfodol yn gweithio o gymysgedd o gartref, gweithle arferol neu ar y safle, i eraill clywsom bryderon am ei weithrediad yn ymarferol. Disgrifiodd un person a gyfwelwyd gennym weithio gartref fel 'staff ar wyliau â thâl' a chlywsom am rai rheolwyr yn mynnu bod y staff yn gweithio yn y swyddfa er y gallent weithio gartref. Er ei bod yn anodd i unrhyw sefydliad o faint y Cyngor sicrhau cydymffurfiaeth gyson â chyfarwyddebau, yn enwedig pan fo lle i ddehongli, dylai'r **Cyngor ystyried sut mae'n mynd i'r afael â'r heriau diwylliannol hyn wrth fynd yn ei flaen gyda'i brosiect Dulliau Modern o Weithio**.
- mae gweithio gartref hefyd yn dod â rhai heriau ymarferol. Mae'n anodd gwybod pryd neu sut y gellir cysylltu â swyddogion, yn enwedig pan fo staff yn gweithio oriau nad ydynt yn rhai safonol i ddarparu ar gyfer cyfrifoldebau gofalu. Clywsom fod rhai aelodau o staff yn amharod i rannu eu rhifau ffôn

cartref, a oedd yn ei gwneud yn anodd i gydweithwyr gysylltu â nhw. Ac os yw staff yn gweithio gartref, sut mae eu preifatrwydd yn cael ei ddiogelu pan fyddant yn wynebu cwsmeriaid? **Dylai'r Cyngor ddatblygu protocol sy'n nodi ei ddisgwyliadau o ran sut a phryd y dylid cysylltu â staff wrth weithio gartref**.

- i'r staff hynny nad oeddent yn gallu gweithio gartref ac yr oedd eu gwasanaethau'n gweithredu drwy'r pandemig, roeddent yn wynebu heriau gwahanol. Roedd y Cyngor yn asesu risg staff yr oedd angen rhyngweithio wyneb yn wyneb â'r cyhoedd ac yn darparu offer diogelu ac yn newid arferion gwaith i gadw staff a'r cyhoedd yn ddiogel. Cyflwynodd staff casglu gwastraff sydd, o reidrwydd, yn rhannu'r un lle yn y cerbyd sbwriel, eu 'grwpiau cyfeillio bach' eu hunain i gyfyngu ar drosglwyddo COVID-19 ymhlith aelodau criw. Ac er bod cynrychiolaeth undebau llafur yn parhau drwy gydol y pandemig gyda chymorth technoleg o bell, roedd y cyfle i ddarparu cysur a chefnogaeth yn ystod cyfarfodydd anodd fel cwynion a gwrandawiadau disgyblu yn cynyddu'r pwysau ar rai staff.
- mae'r pandemig wedi effeithio'n arbennig ar staff gofal cymdeithasol. Mae staff gofal cartref wedi bod ar flaen y gad, gan weithio gyda defnyddwyr gwasanaeth sy'n arbennig o agored i niwed, sydd mewn mwy o berygl o ddal COVID-19 eu hunain a gweithio, fel y gwnânt, yn aml wedi'u hynysu oddi wrth gydweithwyr. Mae gweithwyr cymdeithasol hefyd wedi gweithio drwy'r cyfnod. Gyda'r pwysau ychwanegol o lwythi gwaith cynyddol a marwolaethau diweddar ymhlith plant yn y Deyrnas Unedig a adroddwyd yn y cyfryngau yn pwysleisio pwysigrwydd arferion diogelu cadarn, bu mwy o ofn 'gwneud pethau'n anghywir'.
- mae heriau recriwtio staff wedi parhau drwy'r pandemig gyda phrinder staff o ganlyniad. Cydnabyddir bod cystadleuaeth am weithwyr cymdeithasol a gweithwyr gofal cartref yn bryder rhanbarthol a chenedlaethol gyda thâl, a chystadleuaeth i staff asiantaeth a ddyfynnir fel ffactorau arwyddocaol. Ac nid y sector cyhoeddus yn unig yr effeithir arno; mae un darparwr wedi tynnu'n ôl o'i gontract yn ddiweddar, gan ddychwelyd y cyfrifoldeb am ddiwallu anghenion gofal i'r Cyngor. Mae'r Cyngor wedi gweithio'n galed i recriwtio staff gofal. Mae wedi ceisio recriwtio drwy ddulliau gwahanol gan gynnwys defnyddio cyfryngau cymdeithasol, drwy gynnal ffair swyddi ac mae wedi cynhyrchu fideo recriwtio hyrwyddo. Datblygodd hefyd Strategaeth a Chynllun Gweithredu Recriwtio A Chadw Gofal Cymdeithasol i Blant ym mis Gorffennaf 2021 sy'n nodi nodau a mesurau llwyddiant.
- mae gwasanaethau eraill y Cyngor hefyd wedi profi anawsterau recriwtio, yn enwedig pan fo angen sgiliau technegol sy'n brin, fel ym maes caffael, peirianneg sifil, a gyrwyr ar gyfer cerbydau nwyddau trwm. I rai, mae'r pandemig a'r defnydd cynyddol o fynediad o bell wedi caniatáu i staff weithio mewn rhannau eraill o Gymru heb orfod cymudo bob dydd, sy'n golygu y gall Wrecsam geisio denu recriwtiaid newydd o bell os yw'n dymuno. Her arall i Wrecsam yw ei leoliad daearyddol; ar y ffin â Lloegr mae'n cystadlu am staff â chynghorau cyfagos yn Lloegr hefyd. Mae'r Cyngor yn deall yr heriau hyn

o ran recriwtio staff a **bydd angen sicrhau bod atebion posibl yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau gweithlu i atal y canlyniadau ar gyfer darparu gwasanaethau a'r effaith ar drigolion**.

- absenoldeb oherwydd salwch wedi cael ei effeithio gan y pandemig. Mae rhai gwasanaethau lle mae angen cyswllt wyneb yn wyneb wedi gweld lefelau uwch o salwch, ac mae gwasanaethau eraill lle mae staff wedi gweithio gartref wedi gweld gostyngiad yn lefelau salwch. Dywedodd rheolwyr wrthym mai straen yw'r prif reswm dros absenoldeb a'i fod yn ganlyniad i sawl ffactor. Er enghraifft, byddai staff a allai fod wedi cynnal cyfarfod heriol ac anghyfforddus gydag aelod o'r cyhoedd yn y gorffennol wedi dychwelyd i'r swyddfa lle gallent gael cymorth gan gymheiriaid. Pan fydd y staff hyn yn gweithio gartref, ni fydd cydweithwyr yno i sylwi ar arwyddion pryder a straen ac yn aml bydd yr aelod o staff yn cael ei adael heb gymorth. Gall staff rheng flaen ac uwch reolwyr sydd wedi gweithio drwy'r amser i gadw gwasanaethau'n weithredol a chydlynu gweithgarwch i fynd i'r afael ag effaith y pandemig fod yn teimlo'n flinedig ac effeithiau straen hirdymor. Mae rheolwyr yn deall effaith COVID-19 ar salwch staff yn eu gwasanaethau, ond **mae angen i'r Cyngor gasglu'r wybodaeth hon er mwyn sicrhau bod y ffactorau hyn yn cael sylw drwy'r cynllun gweithlu**.
- mae'r pandemig hefyd wedi darparu cyfleoedd. Mae Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) wedi bod yn sail i waith y Cyngor yn ystod y pandemig. Os oedd rhwystrau i ddefnyddio technoleg o bell yn y gorffennol, gorchfygwyd y rhain. Mae staff wedi cael cymorth i weithio gartref ac mae ysgolion wedi cynorthwyo disgyblion â mynediad o bell. Mae rhai staff peripatetig a oedd yn gyrru i wahanol ysgolion yn y gorffennol i ymweld â'r un plentyn yn yr un wythnos wedi sicrhau effeithlonrwydd drwy dechnoleg o bell i gwrdd â'r plant heb deithio ac sydd bellach â'r capasiti i gwrdd â rhieni, sydd wedi gwella'r gwasanaeth allgymorth. Yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion, mae technoleg wedi trawsnewid dysgu i rai disgyblion a fyddai wedi bod yn amharod yn y gorffennol i ymuno mewn dysgu dosbarth ond sydd bellach yn hapus i gyfrannu gan ddefnyddio technoleg o bell. **Dylai'r Cyngor archwilio'r manteision a sicrhawyd drwy ddefnyddio TGCh yn gynyddol yn ystod y pandemig, nodi cyfleoedd ehangach mewn gwasanaethau eraill ac adolygu gallu'r gwasanaeth TGCh i barhau i gynnal a chyflawni gwelliannau**.

## Mae'r Cyngor yn cynnal trosolwg cryf o'i weithlu ond nid yw eto wedi asesu effaith COVID-19 yn llawn ar ei gynlluniau gwasanaeth yn y dyfodol

16 Wrth ddod i'r casgliad hwn, canfuom:

- fod Pennaeth Adnoddau Dynol y Gwasanaeth yn aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac roedd yn gallu cynnig cyngor adnoddau dynol arbenigol wrth i faterion godi yn ystod y pandemig. Mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth

wedi derbyn adroddiadau rheolaidd drwy gydol y pandemig ar faterion yn ymwneud â'r gweithlu gan gynnwys cynnydd o ran gweithredu'r prosiect Dulliau Modern o Weithio.

- yng nghamau cynnar y pandemig, ataliwyd holl gyfarfodydd y Cyngor gan gynnwys y Bwrdd Gweithredol. Ailddechreuodd y Bwrdd Gweithredol ym mis Mehefin 2020 ac am ddau fis derbyniodd adroddiadau ar COVID-19 a chynllunio adferiad. Ers hynny, nid yw wedi derbyn unrhyw adroddiadau pellach yn ymwneud ag effaith y pandemig.
- mae aelodau'r pwyllgor craffu wedi ystyried adroddiadau ar effaith COVID-19, a chynlluniau adfer y Cyngor. Ym mis Rhagfyr 2020, derbyniodd y Pwyllgor Craffu Cwsmeriaid, Perfformiad, Adnoddau a Llywodraethu adroddiad o'r enw 'Dulliau Modern o Weithio ac Ymateb Gweithlu COVID19' i roi trosolwg i aelodau o ystyriaethau a threfniadau'r gweithlu a roddwyd ar waith wrth ymateb i bandemig y coronafeirws a chyflymu'r broses o weithredu rhannau o'r rhaglen Dulliau Modern o Weithio. Derbyniodd y pwyllgor adroddiad pellach ar Adferiad COVID-19 ym mis Ebrill 2021 a mis Tachwedd 2021.
- mae swyddogion wedi parhau i gyfarfod â chyfoedion mewn cynghorau eraill a chynrychiolwyr undebau llafur i drafod materion sy'n dod i'r amlwg ynglŷn â'r gweithlu, ac mae gwybodaeth meincnodi cenedlaethol ar gael drwy InfoBaseCymru.[1]
- mae'r Cyngor wedi ymgysylltu'n rheolaidd â staff drwy gydol y pandemig, a chafodd y staff i gyd gyfarfod un-i-un ddiwedd yr haf i wirio eu lles. Ym mis Tachwedd 2020, gofynnodd yr arolwg o weithwyr gwestiynau ynglŷn â gweithio gartref a rhoddodd gyfle i weithwyr roi adborth am eu profiadau o weithio yn ystod y pandemig. Cwblhawyd yr arolwg gan 1,012 o staff yn cynrychioli pob gwasanaeth.

---

[1] Mae InfoBaseCymru yn cael ei ddatblygu, ei gefnogi a'i gynnal gan yr Uned Ddata Llywodraeth Leol – Cymru, i darparu mynediad hawdd at wybodaeth i Gymru, gan ddefnyddio mapiau a thablau.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: info@audit.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.